Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU
NHS WALES

Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

Shared Services Partnership
Specialist Estates Services

# Darluniau o Ddylunio Da ym maes Gofal Sylfaenol

2005 - 2020



# Ymwadiad

Mae cynnwys y ddogfen hon yn ddathliad o brosiectau a adeiladwyd dros gyfnod o 15 mlynedd rhwng 2005 - 2020. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae Canllawiau a Safonau Gofal Sylfaenol wedi newid. Felly, ni ellir dibynnu ar gynnwys y ddogfen hon i fodloni canllawiau cyfredol. Rhaid i unrhyw barti sy'n gwneud unrhyw ddefnydd ohoni neu'n dibynnu arni wneud hynny dim ond ar ôl arfer barn y parti hwnnw ei hun ynghylch digonolrwydd y cynnwys o dan amgylchiadau penodol ei ddefnyddio a'i gymhwysiad. Dylai unrhyw barti sy'n dylunio ar gyfer Gofal Sylfaenol gysylltu â PCGC-GYA (Gwasanaethau Ystadau Arbenigol) i gadarnhau beth yw'r canllawiau a'r safonau diweddaraf.

Ni roddir gwarant o ran cywirdeb, perthnasedd na chyflawnrwydd cynnwys y ddogfen hon ac ni fydd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Ystadau Arbenigol unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw wallau neu eithriadau yng nghynnwys y ddogfen, nac unrhyw ddefnydd a wneir ohoni, neu unrhyw ddibyniaeth a roddir arni.

Mewnrwyd: **http://howis.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=254&pid=39106**
Rhyngrwyd: **http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=254&pid=6142**

Cyhoeddwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
Gellir cael gafael ar y cyhoeddiad ar wefan Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Ystadau Arbenigol **https://pcgc.gig.cymru**

© Hawlfraint Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Ystadau Arbenigol 2021



Darluniau o Ddylunio Da ym maes Gofal Sylfaenol 2005 - 2020

# Trosolwg

Amcan Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Sylfaenol yw datblygu model iechyd mwy "cymdeithasol", sy'n hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl sefydliadau, gwasanaethau a phobl berthnasol sicrhau bod achosion sylfaenol iechyd gwael yn cael sylw.

Ymhlith y sefydliadau perthnasol mae'r GIG, gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol, gwasanaethau tai, addysg, trafnidiaeth, yr amgylchedd a hamdden, y sector gwirfoddol - y cyfeirir ato'n gyffredin bellach fel y trydydd sector - y sector annibynnol, gofalwyr a'r bobl eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru eisiau system iechyd sydd wedi'i dylunio ar sail darparu gofal ataliol a pharhaus i ddiwallu anghenion unigolion yn agos at eu cartrefi.

Mae pum maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu:

- Cynllunio gofal yn lleol.
- Gwella mynediad ac ansawdd.
- Mynediad teg.
- Gweithlu lleol medrus.
- Arweinyddiaeth gref.

Gofal sylfaenol yw'r pwynt gofal cyntaf ar gyfer mwy na 90% o gysylltiad pobl â'r GIG yng Nghymru. Mae ymarfer cyffredinol yn greiddiol i ofal sylfaenol ond nid dyma'r unig elfen. Mae gofal sylfaenol yn cwmpasu llawer mwy o wasanaethau iechyd gan gynnwys fferylliaeth, deintyddiaeth ac optometreg. Hefyd, un o'i agweddau pwysig yw cydlynu mynediad i bobl i'r ystod eang o wasanaethau yn y gymuned leol i helpu i ddiwallu eu hanghenion iechyd a llesiant.

Mae'r gwasanaethau cymunedol hyn yn cynnwys ystod eang iawn o staff, megis nyrsys cymunedol a nyrsys ardal, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, timau iechyd meddwl, timau hybu iechyd, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, podiatryddion, gwaedwyr, parafeddygon, gwasanaethau cymdeithasol, aelodau staff eraill mewn awdurdodau lleol a'r holl bobl hynny sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli yn y llu o elusennau sy'n cefnogi pobl yn ein cymunedau.

Fodd bynnag, mae'r patrwm hanesyddol o fuddsoddi a darparu gwasanaethau gofal iechyd wedi canolbwyntio ar salwch ac ysbytai ac nid ar iechyd, llesiant a gofal sylfaenol.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau gweld newid yn y ffordd y mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio gyda'i gilydd, gyda Byrddau Iechyd yn symud eu hadnoddau tuag at ofal sylfaenol, gyda chefnogaeth ysbytai a gwasanaethau eraill, lle bo angen, yn hytrach na pharhau â'r model traddodiadol lle mae gofal mewn ysbytai wedi cael blaenoriaeth wrth ddyrannu adnoddau a phennu meysydd ffocws.

Yr egwyddorion cyffredinol sy'n sail i'r amcan hwn yw:

- Atal, ymyrraeth gynnar a gwella iechyd, nid dim ond triniaeth.
- Gofal cydgysylltiedig lle mae cyffredinolwyr yn gweithio'n agos gydag arbenigwyr a chefnogaeth ehangach yn y gymuned i atal afiechyd, lleihau dibyniaeth a thrin salwch yn effeithiol.
- Cyfranogiad gweithredol y cyhoedd, cleifion a'u gofalwyr mewn penderfyniadau am eu gofal a'u llesiant.
- Cynllunio gwasanaethau ar lefel gymunedol o 25,000-100,000 o bobl.
- Gofal iechyd darbodus.
- Addysg a chyfrifoldeb unigol dros iechyd

Mae llawer o bethau wedi newid ers menter bolisi fawr ddiwethaf Cymru ar ofal sylfaenol, Gosod y Cyfeiriad - Rhaglen Datblygu Strategol ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd yn 2010:

Er gwaethaf cyfnod o gyni o ran cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ledled y DU, mae buddsoddiad Cymru mewn gofal sylfaenol wedi cynyddu'n gyson ers 2003 ond gyda chyllidebau iechyd cynyddol gyfyngedig, mae'r ffocws bellach ar ofal iechyd darbodus a sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn cael yr effaith orau bosibl.



Darluniau o Ddylunio Da ym maes Gofal Sylfaenol 2005 - 2020

# Cydnabyddiaethau

Hoffai PCGC-GYA (Gwasanaethau Ystadau Arbenigol) ddiolch i'r Datblygwyr Trydydd Parti canlynol am eu cefnogaeth i ddatblygu'r rhaglen hon o brosiectau ac am ddarparu ffotograffau i'w cynnwys yn y ddogfen hon.

APOLLO - Mr Rob James

Assura Plc - Mr Simon Gould

PHP (Primary Health Properties) Plc - Mr David Austin

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1.0 | Cyflwyniad |
| 2.0 | Egwyddorion Dylunio Gofal Sylfaenol |
| 3.0 | Darluniau o Ddylunio Da |
| 3.1 | Mynedfeydd |
| 3.2 | Cynteddau |
| 3.3 | Arsylwi |
| 3.4 | Derbynfeydd |
| 3.5 | Mannau Aros |
| 3.6 | Dulliau Cyfeirio |
| 3.7 | Iardiau |
| 3.8 | Celf |
| 3.9 | Dylunio Mewnol |
| 3.10 | Cynaliadwyedd |
| 4.0 | Gofal Sylfaenol 2018 - 2021 a thu hwnt |
| Atodiad 1 | Prosiectau Gofal Sylfaenol 2005 - 2020 |






1 Cyflwyniad

Pennod 1

# Cyflwyniad

Ysgogwyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r ystad gofal sylfaenol gan arolwg Cymru gyfan o gyflwr ffisegol ac addasrwydd swyddogaethol a gynhaliwyd yn 2003. Nododd yr arolwg hwn ystad gofal sylfaenol sy'n ei chael hi'n anodd addasu i heriau gofal iechyd modern gyda llawer o gyfleusterau'n is na'r safonau disgwyliedig ar gyfer adeiladau gofal iechyd. Nododd yr arolwg ofyniad brys am fuddsoddiad i ailwampio neu adnewyddu llawer o'r ystad gofal sylfaenol yn sylweddol. Bwriwyd ymlaen â chynlluniau datblygu strategol, cymeradwywyd achosion busnes ac erbyn 2005 daeth y cyntaf o'r don newydd o gyfleusterau gofal sylfaenol yn weithredol.

Dros y 15 mlynedd nesaf, cyflawnwyd 70 o brosiectau yn llwyddiannus (Gweler **Atodiad 1** am restr lawn o brosiectau). Llwyddiant mawr i bawb a oedd yn rhan o'r gwaith.

Mae'r ddogfen hon yn tynnu ar y profiad a gafwyd yn sgil darparu rhaglen mor eang o weithgarwch ac mae'n defnyddio enghreifftiau o'r prosiectau hyn i nodi achosion o ddylunio da ym maes gofal sylfaenol.

- **Egwyddorion Dylunio Gofal Sylfaenol**
- **Darluniau o Ddylunio Da**

Pennod 2

# Egwyddorion Dylunio Gofal Sylfaenol

Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi ymrwymo i foderneiddio Ystad y GIG yng Nghymru, ac mae'n ystyried hyn yn alluogwr allweddol i gyflawni ei strategaeth i wella'r ddarpariaeth o gyfleusterau gofal sylfaenol i bobl Cymru. Er mwyn moderneiddio Ystad y GIG bydd angen caffael cyfleusterau o ansawdd uchel, sy'n briodol i anghenion y gwasanaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Er mwyn atgyfnerthu'r ymrwymiad hwn, mae LlC wedi sefydlu'r egwyddorion cynllunio canlynol ar sail tystiolaeth yng **Nghanllaw Buddsoddi yn Seilwaith GIG Cymru (9.1),** sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau cleifion:

## Egwyddor Rhif 1 - Hygyrchedd

**Dylai cyfleusterau gofal iechyd gael eu lleoli mor agos â phosibl i'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Dylai mynedfeydd fod yn amlwg i gerddwyr, beicwyr a cherbydau. Dylai un ddesg dderbyn fod yn amlwg ar unwaith wrth fynd i mewn i'r adeilad. Dylai cynllun yr adeilad fod yn reddfol a dylai fod yn hawdd dod o hyd i'ch ffordd drwyddo heb ddibynnu gormod ar arwyddion.**

## Egwyddor Rhif 2 - Ymarferoldeb

**Dylai briff clir a chysyniad da arwain at greu adeilad sydd wedi'i ddylunio'n dda. Dylai'r adeilad fod o'r maint mwyaf addas a dylai gael ei ddefnyddio gan ganolbwyntio ar ddefnyddio gofod a gwasanaethau cyfagos yn effeithlon.**

## Egwyddor Rhif 3 - Trefnus yn weledol

**Dylai adeiladau Gofal Sylfaenol fod mewn lleoliad da ar y safle i alluogi ymwelwyr i adnabod y cydrannau gwahanol fel Prif Fynedfa, Practis Meddygol Cyffredinol a Fferyllfa ar unwaith. Bydd hyn yn helpu wrth gyrraedd a mynd o gwmpas yr adeilad. Fel rheol, bydd adeilad trefnus ar y tu allan yn golygu bod yr adeilad yn drefnus ar y tu mewn a bydd yn helpu o ran dod o hyd i wahanol fannau yn yr adeilad.**

## Egwyddor Rhif 4 - Golau naturiol

**Mae yna lawer o dystiolaeth i ddangos bod mynediad at olau naturiol yn cael effaith gadarnhaol ar brofiad cleifion a staff ac y dylai'r adeilad gysylltu'n dda â'r amgylchedd allanol a gorweddiad y safle.**

## Egwyddor Rhif 5 - Awyru naturiol

**Mae awyru naturiol yn elfen amgylcheddol bwysig i sicrhau bod staff a chleifion yn gyfforddus. Dylai fod gan staff reolaeth dros awyru naturiol i sicrhau bod pawb mor gyfforddus â phosibl.**

## Egwyddor Rhif 6 - Mynediad i ardaloedd allanol wedi'u tirlunio

**Gall mynediad i amgylchedd allanol dymunol fod yn fuddiol i brofiad y cleifion a'r staff.**

## Egwyddor Rhif 7 - Rheoli'r amgylchedd

**Dylai rheolaeth ar yr amgylchedd mewnol fod yn syml ac yn effeithlon at ddefnydd staff a dylai fod wedi'i rhannu'n barthau lle bo hynny'n bosibl.**

## Egwyddor Rhif 8 - Celf i dynnu sylw'r meddwl

**Mae angen ystyried yn gynnar y defnydd o gelf briodol sydd wedi'i hymgorffori yn yr adeilad neu'r dirwedd ac ni ddylai fod yn ôl-ystyriaeth. Dylai celf fod yn rhan o gysyniad strategol y dyluniad. Gall y cynllunio cychwynnol a wneir yn ystod cam datblygu dyluniad y cynllun gynnwys y gymuned leol ac ehangu perchnogaeth y cynllun. Mae celf yn cadw'r synhwyrau'n brysur ac yn gwneud profiad y claf yn fwy dymunol.**

## Egwyddor Rhif 9 - Dylunio mewnol

**Mae dylunio mewnol yn bwysig iawn, gyda lliwiau'n cael effaith fawr ar brofiad y claf. Rhaid i du mewn yr adeilad fod yn rhesymegol fel bod y fynedfa'n amlwg ac y gellir dod o hyd i'ch ffordd yn reddfol.**

## Egwyddor Rhif 10 - Cynaliadwyedd

**Mae cynaliadwyedd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru felly dylai dyluniadau ystyried y canlynol o'r cychwyn cyntaf:**

- **cyfyngiadau a chyfleoedd ffisegol y safle, a ddefnyddir i wneud y gorau o ddyluniad solar goddefol;**
- **ymateb i gyd-destun y dirwedd / treflun;**
- **gorweddiad yr adeilad;**
- **strategaeth y dirwedd;**
- **strategaeth gwasanaethau, gan gynnwys technolegau carbon isel a dim carbon;**
- **opsiynau ar gyfer awyru naturiol, ynni solar, gyda chysgod solar priodol ac amddiffyniad rhag gorboethi;**
- **cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle;**
- **dewis deunyddiau a chydrannau ar gyfer ynni ymgorfforedig isel a chynhyrchu cynaliadwy;**
- **y defnydd o ddeunyddiau a llafur lleol;**
- **gwydnwch, rhwyddineb o ran cynnal a chadw, atgyweirio ac amnewid;**
- **hyblygrwydd ar gyfer ehangu neu leihau gwasanaethau yn y dyfodol;**
- **rhwyddineb o ran dymchwel, ailgylchu/ailddefnyddio a gwaredu yn y dyfodol;**
- **cynyddu'r gallu i arbed ynni i'r eithaf.**

Dylai rhagoriaeth dylunio fod yn ofyniad canolog mewn unrhyw friff dylunio. Dylai ganolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau'n gyfrifol ac yn greadigol i wella'r gwasanaeth i bawb. Mae ymchwil a phrofiad wedi dangos buddion amgylchedd da i'r broses iachâu a'r gwerth i'r gymuned ac yn benodol, yr effaith ar forâl staff. Ni ddylai rhagoriaeth dylunio fod yn ôl-ystyriaeth ond yn hytrach yn ofyniad canolog mewn unrhyw friff dylunio.



Darluniau o Ddylunio Da ym maes Gofal Sylfaenol 2005 - 2020

3 Darluniau o Ddylunio Da

Pennod 3

# Darluniau o Ddylunio Da



## 3.1 Mynedfeydd

**Dylai mynedfeydd adeiladau fod yn amlwg o'r man cyrraedd wrth fynedfa'r safle. Dylai'r lleoedd parcio i bobl anabl a'r man casglu ar gyfer Ambiwlansys fod wedi'u lleoli mor agos at y fynedfa â phosibl.**

Mae Mynedfa'r Safle i'w gweld yn glir ac mae'n darparu pwynt mynediad amlwg i ymwelwyr.



**Canolfan Iechyd Beacon, Abertawe**

Mae gan y fynedfa ffurf bensaernïol bendant ac mae'n amlwg i ymwelwyr. Mannau parcio ceir i'r anabl a man casglu'r ambiwlansys yn agos at y fynedfa.




**Canolfan Adnoddau Gofal Sylfaenol Blaenafon**



Darluniau o Ddylunio Da ym maes Gofal Sylfaenol 2005 - 2020




**Canolfan Feddygol Cloughmore**



**Canolfan Feddygol yr Hen Orsaf, Bethesda**

3 Darluniau o Ddylunio Da




**Canolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch**



**Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni**




Darluniau o Ddylunio Da ym maes Gofal Sylfaenol 2005 - 2020

## 3.2 Cynteddau

**Gall cyntedd fod yn elfen drawiadol o adeilad; dylid ei gynnwys fel rhan o'r dyluniad strategol cyffredinol gan ystyried effeithlonrwydd, costau rhedeg a chynaliadwyedd.**

Gall man awyr agored mawr uwchben man aros â chynllun dwfn ddarparu golau ac awyru naturiol gan sicrhau profiad mwy cyfforddus.



**Canolfan Iechyd Sgwâr Manceinion, Aberdaugleddau**

Gall cyntedd aml-lawr edrych yn ddramatig a darparu golau naturiol mewn gofod â chynllun dwfn iawn.


Gall cyntedd hefyd gael ei ddefnyddio fel lleoliad sylfaenol, cyfarwydd er mwyn i bobl ddod o hyd i wahanol rannau o'r adeilad.



**Canolfan Feddygol Porthcawl**

3 Darluniau o Ddylunio Da

Nid yn unig y mae gofod fertigol mawr yn codi'r hwyliau, yn darparu awyriad a golau naturiol, ond gall hefyd helpu o ran dod o hyd i wahanol fannau.



**Canolfan Feddygol Cloughmore**




**Canolfan Iechyd Beacon, Abertawe**



Darluniau o Ddylunio Da ym maes Gofal Sylfaenol 2005 - 2020

**Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni**



Gellir gwneud gofod â chynllun dwfn yn fwy dymunol drwy gyflwyno golau naturiol yn y man aros / y dderbynfa.

**Canolfan Iechyd Ardudwy, Harlech**



## 3.3 Arsylwi

**Mae arsylwi'n hanfodol mewn unrhyw adeilad Gofal Sylfaenol. Dylai'r dderbynfa allu arsylwi cymaint o'r cyfleuster â phosibl, yn enwedig yr ardal aros, toiledau, grisiau, lifftiau a choridorau i ystafelloedd ymgynghori.**

Mae'r ystafelloedd ymgynghori i'w gweld yn glir o'r dderbynfa gan ei gwneud yn haws arsylwi a dod o hyd i wahanol fannau.



**Tŷ Calon Lân, Aberpennar**

Mae gofod cylchredeg y llawr cyntaf i'w weld o'r man aros isaf a'r dderbynfa sy'n golygu y gellir arsylwi'n hawdd ac mae hefyd yn ei gwneud yn haws dod o hyd i wahanol fannau.



**Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni**



Darluniau o Ddylunio Da ym maes Gofal Sylfaenol 2005 - 2020

**Canolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch**

Mae'r coridor yn agor at yr iard gan ganiatáu man arsylwi da o'r dderbynfa ac mae'n golygu y gallwch ddod o hyd i'ch ffordd yn haws.



Gellir gweld y man aros ar y llawr gwaelod a'r gofod cylchredeg ar y llawr cyntaf yn glir o'r dderbynfa.

**Canolfan Feddygol West Quay**



## 3.4 Derbynfeydd

**Y dderbynfa yw calon yr adeilad ac mae angen iddi fod yn amlwg ar unwaith wrth fynd i mewn i'r adeilad. Dylai'r dderbynfa fod mewn lle da i allu gweld dros y fynedfa, y man aros, cyfleusterau toiled, grisiau, lifftiau a'r coridorau sy'n rhoi mynediad i ystafelloedd ymgynghori.**

Mae derbynfa wedi'i dylunio'n dda'n hynod bwysig mewn adeiladau Gofal Sylfaenol gan mai dyma yw calon yr adeilad.




### Canolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch



### Canolfan Iechyd Ardudwy, Harlech





Mae derbynfa wedi'i dylunio'n dda'n sicrhau y gellir arsylwi'r man aros, y cyfleusterau toiled, y lifftiau, y grisiau a'r coridorau i ystafelloedd ymgynghori yn rhwydd.

### Canolfan Iechyd Sgwâr Manceinion, Aberdaugleddau




Yn ddelfrydol, mae derbynfeydd yn agored ac yn hygyrch gyda chownteri o wahanol uchderau ar gyfer pob gallu. Fodd bynnag, er mwyn ymateb i bandemig COVID-19, mae sgriniau gwydr clir yn cael eu defnyddio i ddiogelu staff a chleifion.



### Canolfan Iechyd Mountain View, Abertawe

## Canolfan Iechyd Y Felinheli

Mae ar dderbynfeydd a mannau aros angen mynediad i olau naturiol a golygfeydd o'r tu allan. Mae hyn yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddymunol.



## Tŷ Calon Lân, Aberpennar

Rhaid i'r dderbynfa fod yn amlwg ar unwaith wrth fynd i mewn i'r adeilad a rhaid gallu gweld y man aros yn rhwydd ohoni.






Darluniau o Ddylunio Da ym maes Gofal Sylfaenol 2005 - 2020

## Meddygfa'r Waun, Canolfan Iechyd y Castell

Mae derbynfa sydd wedi'i dylunio'n dda'n rhoi hyder i gleifion ac ymwelwyr.




## Canolfan Feddygol West Quay

Derbynfa sydd wedi'i dylunio'n dda, sy'n amlwg wrth gyrraedd, a chanddi fynediad at awyriad a golau naturiol. Mae ganddi gyntedd ddwbl uchder gweddill y llawr, lle gellir edrych dros y man aros, y cyfleusterau toiled, y grisiau, y lifftiau a mannau cylchredeg y llawr cyntaf yn rhwydd.



Mae’r dderbynfa ddeintyddol breifat yng Nghanolfan Beacon Abertawe yn ymddangos yn broffesiynol iawn gyda defnydd syml o liw a brandio.




**Practis Meddygol Eastside - Canolfan Iechyd Beacon, Abertawe**





## 3.5 Mannau Aros

**Mae angen i’r man aros fod yn amlwg o’r fynedfa a rhaid gallu gweld y dderbynfa’n glir oddi yno, ynghyd ag unrhyw system gyfathrebu electronig, boed yn system weledol neu’n system sain. Dylai’r mannau aros hefyd fod yn agos at y cyfleusterau toiled. Dylai dyluniad y man aros fod yn fodern ac yn ddymunol gyda seddi yn addas i bob claf a dylid ei ddylunio gan ddefnyddio creadigrwydd.**

Man aros dymunol wedi’i addurno’n dda a chanddo fathau gwahanol o seddi ar gyfer pawb.



**Practis Meddygol Blaenafon**

Man aros wedi’i ddylunio mewn arddull fodern gyda seddi ar gyfer pob gallu a golau naturiol o ffynhonnell uwchben.



**Canolfan Feddygol Porthcawl**

3 Darluniau o Ddylunio Da

Man aros wedi'i ddylunio mewn arddull fodern gyda seddi ar gyfer pob gallu a golau naturiol o ffynhonnell uwchben.



**Canolfan Feddygol Porthcawl**

Man aros wedi'i ddylunio'n dda gyda nenfwd uchel, a ffenestri to sy'n darparu awyriad a golau naturiol. Seddi amrywiol i bawb. Seddi sy'n wynebu'r un cyfeiriad ac nid yn wynebu ei gilydd.




**Meddygfa'r Waun, Canolfan Iechyd y Castell**

Man aros yn amlwg ar unwaith o ddrysau'r fynedfa. Defnyddir lliwiau ar gyfer y lloriau er mwyn helpu i gyfeirio pobl, darperir golau naturiol yng nghefn yr ardal eistedd a chelf ar y waliau i dynnu'r sylw. Popeth yn amlwg ar unwaith o ddesg y dderbynfa.



**Canolfan Iechyd Y Felinheli**



Darluniau o Ddylunio Da ym maes Gofal Sylfaenol 2005 - 2020

**Canolfan Feddygol Cloughmore**

Man aros lle ceir seddi â breichiau i'r rheini sydd angen cymorth i sefyll ac eistedd. Cyntedd lefel uchel sy'n darparu awyriad a golau naturiol. Golygfeydd o'r tu allan i ddarparu difyrrwch.



Mae'r prif fan aros yn agos at y dderbynfa a cheir seddi modern, cyfforddus. Gellir gweld y grisiau'n glir o'r dderbynfa.



**Canolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch**

3 Darluniau o Ddylunio Da

## Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni

Tu mewn yr adeilad wedi'i ddylunio'n dda gyda lliwiau modern ffres, seddi meddal cyfforddus i gyd yn wynebu un cyfeiriad er mwyn osgoi lledaenu heintiau drwy eistedd wyneb yn wyneb.





Man aros modern â nenfwd ddwbl yr uchder, ffenestri ar lefel uchel sy'n darparu awyriad a golau naturiol. Dewis o liwiau modern, bywiog.

## Canolfan Feddygol Ffordd Nantgarw



Darluniau o Ddylunio Da ym maes Gofal Sylfaenol 2005 - 2020

Man aros wedi'i ddylunio'n dda, cyntedd sydd ddwbl uchder gweddill y llawr, a chanddo ffenestri ar lefel uchel i ddarparu awyriad a golau naturiol.
Ffenestri gwydr lliw modern i adlewyrchu lliw drwy'r gofod. Cadeiriau meddal ar gyfer pob gallu.



## Canolfan Feddygol Gwrych, Abergele

3 Darluniau o Ddylunio Da

## 3.6 Dulliau Cyfeirio

**Mae gallu dod o hyd i'ch ffordd mewn modd greddfol yn hynod bwysig mewn unrhyw gyfleuster gofal iechyd; mae'r gallu i gyrraedd cyrchfannau o amgylch yr adeilad gan ddibynnu cyn lleied â phosibl ar arwyddion yn hanfodol.**

Arwyddion modern gyda chyfarwyddiadau dwyieithog yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg a Braille yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Defnyddio arwyddion darluniadol lle bynnag y bo modd.




### Canolfan Adnoddau Gofal Sylfaenol Blaenafon

Mae defnyddio llythrennau a rhifau sy'n ymddangos fel baneri yn ffordd ddyfeisgar o gyfeirio cleifion ac ymwelwyr.




### Meddygfa'r Waun, Canolfan Iechyd y Castell

Mae dulliau rhifo modern ar gyfer ystafelloedd yn ffordd ddyfeisgar o gyfeirio pobl. Gall y rhifau fod yn rhan o'r strategaeth dylunio mewnol a bodloni nod neu fod o ryw ddefnydd penodol.




### Canolfan Iechyd Y Felinheli

Gall dull cyfeirio dyfeisgar fod yn rhan o'r strategaeth dylunio mewnol a throi ei hun yn ddarn o gelf modern os gellir ei wneud yn llwyddiannus.




### Canolfan Feddygol Porthcawl

Strwythurau crymion i gyfeirio pobl yn fwy naturiol o gwmpas corneli.



### Canolfan Iechyd Sgwâr Manceinion, Aberdaugleddau

Dulliau greddfol o ddod o hyd i fannau drwy ddarluniau yn hytrach na disgrifiadau geiriol, y gellir eu camddehongli.



### Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni

3 Darluniau o Ddylunio Da

Mae arwyddion clir ac amlwg yn hanfodol ac mae angen iddynt gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg.

**Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni**






Mae'r Practis Deintyddol Preifat hwn yn defnyddio lliwiau modern mewn ffordd ddyfeisgar i gyfeirio cleifion ac ymwelwyr, gan amlygu ystafelloedd ymgynghori trwy newid lliw. Mae hon yn ffordd syml iawn o gyfeirio pobl o amgylch yr adeilad sydd wedi'i dylunio i mewn i'r strategaeth dylunio mewnol ac sy'n dod yn ddarn o waith celf ynddi'i hun.

**Practis Meddygol Eastside - Canolfan Iechyd Beacon, Abertawe**






## 3.7 Iardiau


**Mae iardiau'n rhoi cyfle i gyflwyno golau i adeiladau â chynllun dyfnach, cyflwyno difyrrwch wrth aros, cyfle i ddod o hyd i ran arall o'r adeilad trwy gyfeirio at fan cyfarwydd a chynfas i gyflwyno tirwedd / cerfluniau a chelf.**

Mae iardiau'n gyfle i ddod â golau naturiol i mewn i adeiladau mewn lleoliadau strategol, ynghyd â dod â'r dirwedd i mewn i'r adeilad a darparu difyrrwch. Gellir defnyddio iardiau hefyd i ddod o hyd i'ch ffordd o amgylch yr adeilad gan eu defnyddio fel pwyntiau cyfeirio.



**Canolfan Iechyd Ardudwy, Harlech**

Mae ardaloedd allanol o amgylch yr adeilad hefyd yn bwysig ac mae angen eu dylunio'n ofalus gan sicrhau cydbwysedd rhwng tirlunio caled a meddal o ansawdd y gellir ei weld o'r tu mewn i'r adeilad.



**Canolfan Feddygol Cloughmore**

Iard fawr gydag ardal o dirlunio caled fel cefndir ar gyfer darn o gerflun pren sy'n edrych yn ddymunol.

Mae'r iard yn darparu golau ac awyru naturiol i'r tu mewn ac yn darparu man tawel i'r sawl sydd ei angen.



**Canolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch**

Golygfa arall o'r tu mewn i'r adeilad o'r iard yn dangos effeithiolrwydd ansawdd golau, mynediad er mwyn dianc a golygfa o'r cerflun modern.



**Canolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch**

Gall iardiau fod yn gwbl gaeedig neu'n agored. Gall y ddau fod yr un mor effeithiol. Yn darparu golau ac awyru naturiol, ac yn dod â'r dirwedd i mewn i'r adeilad.



**Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni**





## 3.8 Celf

**Mae celf yn hanfodol mewn unrhyw gyfleuster gofal iechyd gan dorri ar undonedd ardaloedd mawr o liw plaen, y cyfle i gael celf tri dimensiwn o fewn cynteddau ac o amgylch grisiau.**

Gellir defnyddio celf i wella profiad, llesiant ac iechyd meddwl cleifion. Gall celf dorri ar undonedd ardaloedd mawr o waliau â lliwiau plaen. Gellir ei defnyddio i gynnwys y gymuned a darparu ymdeimlad o berchnogaeth yn y gymuned leol.



**Canolfan Iechyd Y Felinheli**

Mae i gelf sawl ffurf wahanol ac mae'n cael ei defnyddio'n ddyfeisgar fel dull o gyfeirio pobl.



**Canolfan Feddygol Porthcawl**

Gellir defnyddio celf yn ddyfeisgar ac yn syml trwy ddarparu tyllau mewn waliau lle gellir gweld y gwaith celf o ddwy ochr y wal.



**Canolfan Feddygol Cloughmore**



Darluniau o Ddylunio Da ym maes Gofal Sylfaenol 2005 - 2020

## 3.9 Dylunio Mewnol

**Mae dylunîad mewnol yr un mor bwysig â Phensaernïaeth yr adeilad. Mae cleifion/ymwelwyr a staff yn treulio cyfnod byr yn agosáu at adeilad gan werthfawrogi ei ffurf Bensaernïol ond yna'n treulio cyfnod llawer hirach y tu mewn i'r adeilad. Felly mae ansawdd y tu mewn yn bwysig iawn a dylai fod yn rhan annatod o'r dyluniad cysyniadol.**

Tu mewn modern yn defnyddio deunyddiau arloesol a phalet dymunol o liwiau ynghyd â golau naturiol a ddarperir gan iard sydd â golygfeydd draw at gerflun modern.



**Canolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch**

Cerrig a phren naturiol wedi'u defnyddio'n ddyfeisgar y tu mewn i'r adeilad i ddarparu cyferbyniad rhwng arwynebau garw a llyfn.





Celf ar ffurf seddi sy’n dangos y gall dyluniad mewnol da fod yn ymarferol ac yn effeithiol, gyda gofal.



## Meddygfa’r Waun, Canolfan Iechyd y Castell





## 3.10 Cynaliadwyedd

**Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu adeiladau digarbon ac yn ei gwneud yn ofynnol i bob cynnig ar gyfer prosiectau adeiladu newydd gynnwys cynnig datgarboneiddio.**

Daw cynaliadwyedd ar sawl ffurf, mae’r enghraifft hon yn osodiad boeler Biomas.

### Canolfan Iechyd Ardudwy, Harlech



Gosodiad panel ffotofoltäig sy’n darparu trydan.

### Canolfan Feddygol Cloughmore



3 Darluniau o Ddylunio Da

Gosodiad paneli ffotofoltäig sy'n darparu trydan ar gyfer cynhesu dŵr. Brise Soleil yn darparu cysgod i atal gorboethi, mae Awyriad drwy'r To trwy ffenestri to yn caniatáu i aer poeth gormodol ddianc gan sicrhau nad yw'r adeilad yn mynd yn rhy boeth.



**Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni**





Gosodiad ffotofoltäig sy'n darparu trydan.




**Canolfan Feddygol West End**

Pennod 4

# Gofal Sylfaenol 2018 - 2021

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn barhaus yng Nghymru a chyda hyn daw ymrwymiad i wella ansawdd adeiladau Gofal Sylfaenol. Felly, er mwyn parhau â llwyddiant y 15 mlynedd diwethaf, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Fuddsoddiad Cyfalaf o £65.5 miliwn yn 2017 i'w fuddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal integredig.

Nodwyd 19 prosiect, a rhoddwyd cymeradwyaeth i symud ymlaen i weithredu a chyflawni cynlluniau. Mae hyn yn amodol ar y gofyniad i gyrff perthnasol y GIG ddarparu achosion busnes boddhaol gyda'r bwriad y bydd pob cynllun yn cael ei gyflawni erbyn 2021.

Mae'r rhaglen hon yn darparu'r buddsoddiad mwyaf wedi'i dargedu mewn seilwaith gofal sylfaenol a chymunedol gan Lywodraeth Cymru. Bwriad y cyfleusterau sydd yn yr arfaeth yw gwella mynediad i ystod o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn agosach at gartrefi pobl. Mae polisi Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r ymrwymiad hwn ymhellach ac wedi pwysleisio trwy 'Cymru Iachach' yr angen i adeiladu ar hybiau cymunedol lleol.

Mae'r cynllun yn ceisio darparu cyfuniad o brosiectau adnewyddu ac ailddatblygu sy'n gysylltiedig ag asedau presennol y GIG a chynlluniau integredig adeiladu newydd. O'r 19 prosiect a nodwyd i'w cyflawni erbyn 2021, mae 15 yn brosiectau cyfalaf a 4 yn rhai refeniw, sy'n cael eu cyflawni trwy ddatblygwyr trydydd parti.

**Mae'r 19 fel a ganlyn:**

**Adnewyddu ac Ailddatblygu asedau presennol sy'n eiddo i'r GIG**

- Canolfan Iechyd Penclawdd
- Clinig Cymunedol Murton
- Canolfan Gofal Sylfaenol Rhuthun/Canol Sir Ddinbych
- Canolfan Iechyd Tonypandy
- Dewi Sant Cam 2, Pontypridd
- Canolfan Gofal Integredig Aberaeron
- Canolfan Iechyd Abergwaun
- Canolfan Gofal Sylfaenol a Chymunedol Machynlleth



Darluniau o Ddylunio Da ym maes Gofal Sylfaenol 2005 - 2020

**Asedau Adeiladu Newydd - Cyfalaf (a fydd yn eiddo i'r GIG)**

- Canolfan Gofal Sylfaenol Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr (Sunnyside)
- Canolfan Les Abertawe
- Canolfan Iechyd a Lles Tredegar
- Canolfan Adnoddau Dwyrain Casnewydd
- Canolfan Iechyd a Lles Maelfa
- Canolfan Iechyd a Lles Penarth
- Canolfan Gofal Integredig Cross Hands

**Prosiectau Refeniw Adeiladu Newydd**

- Canolfan Gofal Sylfaenol Waunfawr
- Canolfan Gofal Sylfaenol Aberpennar
- Canolfan Newydd i Gymryd Lle Meddygfa Pentyrch
- Llanfair Caereinion

Mae llwyddiant y cynllun wedi arwain at gyfleoedd integreiddio ehangach na'r hyn a ragwelwyd gyntaf ond mae hefyd wedi golygu bod cynlluniau'n fwy cymhleth. Felly, mae arwynebedd llawr y cyfleusterau newydd wedi cynyddu'n aruthrol o'r hyn a ragwelwyd i ddechrau. Mae hyn er mwyn darparu ar gyfer y Model Gofal Newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ers cyhoeddi'r Buddsoddiad Cyfalaf gwreiddiol ar gyfer yr 19 prosiect.

Mae pob prosiect yn y broses o gael eu cyflawni gyda 6 eisoes wedi'u cwblhau.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn dechrau cynllunio cam nesaf y buddsoddiad i sicrhau bod y momentwm i ddarparu gwasanaeth Gofal Sylfaenol modern yn cael ei gynnal.

5 Casgliad

Pennod 5

# Casgliad

Mae'r cyhoeddiad hwn yn ddathliad o gyflawniadau datblygiadau Gofal Sylfaenol o fewn GIG Cymru yn ystod y cyfnod 15 mlynedd rhwng 2005 a 2020. Roedd yr arolwg Gofal Sylfaenol gwreiddiol a gynhaliwyd gan Ystadau Iechyd Cymru yn 2003 yn nodi cyflwr gwael yr ystâd yn glir. Mae'r 70 prosiect a gyflwynwyd gan GIG Cymru yn y cyfnod 15 mlynedd hyd at 2020 yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wasanaethau Gofal Sylfaenol yn glir, ond mae hefyd yn dangos ymrwymiad i adeiladau o ansawdd da a phwysigrwydd dylunio da ar gyfer profiadau cleifion a'r staff.



Darluniau o Ddylunio Da ym maes Gofal Sylfaenol 2005 - 2020

A Atodiad 1

Atodiad 1

# Prosiectau Gofal Sylfaenol 2005 - 2020



## A Atodiad 1

| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 01 | Canolfan Gofal Integredig Aberaeron | Cyfalaf |  |
| 02 | Canolfan Feddygol Abersychan | 3PD |  |
| 03 | Canolfan Gofal Sylfaenol Aberystwyth, Padarn | 3PD |   |
| 04 | Canolfan Iechyd Ardudwy, Harlech | 3PD |  |





| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 05 | Canolfan Feddygol Argyle, Doc Penfro | 3PD |  |
| 06 | Canolfan Gofal Sylfaenol Benllech | 3PD |  |
| 07 | Canolfan Gofal Sylfaenol Betws-y-coed | 3PD |  |
| 08 | Meddygfa Llwynbedw, Caerdydd | 3PD |   |

A

Atodiad 1

| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 09 | Canolfan Adnoddau Gofal Sylfaenol Blaenafon | 3PD |  |
| 10 | Canolfan Iechyd Llansawel | 3PD |  |
| 11 | Canolfan Adnoddau Bro Preseli, Crymych | 3PD |   |
| 12 | Canolfan Gofal Sylfaenol Brynhyfryd | 3PD |  |



Darluniau o Ddylunio Da ym maes Gofal Sylfaenol 2005 - 2020

| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 13 | Canolfan Les Brynmawr | 3PD |  |
| 14 | Canolfan Feddygol Bwcle | 3PD |  |
| 15 | Canolfan Iechyd Tre-biwt, Caerdydd | Cyfalaf |  |
| 16 | Canolfan Iechyd Parc Caia, Wrecsam | 3PD |  |

A Atodiad 1

| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 17 | Canolfan Crwst, Llanrwst | 3PD |  |
| 18 | Canolfan Goffa Ffestiniog | Cyfalaf |  |
| 19 | Canolfan Iechyd Amlwch | 3PD |  |
| 20 | Canolfan Iechyd Y Felinheli | 3PD |  |





| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 21 | Canolfan Gofal Integredig Aberteifi | Cyfalaf |  |
| 22 | Canolfan Iechyd y Castell, y Waun | 3PD |  |
| 23 | Canolfan Feddygol Cloughmore, Caerdydd | 3PD |  |
| 24 | Canolfan Gofal Sylfaenol Clydach | 3PD |   |

A Atodiad 1

| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 25 | Canolfan Iechyd y Bont-faen | 3PD |  |
| 26 | Practis Meddygol Craig y Don, Llandudno | 3PD |  |
| 27 | Canolfan Feddygol Cwm Gwrydd, Gilfach Goch | 3PD |  |
| 28 | Canolfan Feddygol Dinas Powys | 3PD |  |





| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 29 | Canolfan Gofal Sylfaenol Cwm Dulais, Blaendulais | 3PD |  |
| 30 | Canolfan Feddygol Forest View, Treorci | 3PD |  |
| 31 | Canolfan Feddygol Gelligaer | 3PD |  |
| 32 | Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Glan Irfon, Llanfair-ym-Muallt | Cyfalaf |  |

A Atodiad 1

| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 33 | Canolfan Feddygol Glanrafon, yr Wyddgrug | 3PD |  |
| 34 | Practis Meddygol Grange, Caerdydd | 3PD |  |
| 35 | Canolfan Feddygol Gwrych, Abergele | 3PD |  |
| 36 | Hafan Iechyd Caernarfon | 3PD |  |





| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 37 | Canolfan Feddygol Hirwaun | 3PD |  |
| 38 | Ysbyty Cymuned Treffynnon | Cyfalaf |  |
| 39 | Canolfan Adnoddau Gofal Sylfaenol yr Hôb | 3PD |  |
| 40 | Parc Iechyd Prifysgol Keir Hardy, Merthyr Tudful | Cyfalaf |  |

A

Atodiad 1

| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 41 | Canolfan Iechyd Llanbradach | 3PD |  |
| 42 | Canolfan Iechyd Llangollen | Cyfalaf |  |
| 43 | Canolfan Iechyd Sgwâr Manceinion, Aberdaugleddau | 3PD |  |
| 44 | Canolfan Iechyd Mountain View, Mayhill, Abertawe | 3PD |  |





| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 45 | Canolfan Feddygol Ffordd Nantgarw, Caerffili | 3PD |  |
| 46 | Canolfan Feddygol Gogledd Caerdydd, Thornhill | Meddygfa |  |
| 47 | Canolfan Feddygol Pont Newydd, Porth | 3PD |  |
| 48 | Canolfan Feddygol Porthcawl | 3PD |  |

A Atodiad 1

| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 49 | Canolfan Adnoddau Port Talbot | 3PD |  |
| 50 | Canolfan Gofal Sylfaenol, Pencoed | Cyfalaf |  |
| 51 | Canolfan Gofal a Iechyd Cymdeithasol Integredig Rhymni | 3PD |  |
| 52 | Canolfan Feddygol Rhiwabon | 3PD |  |





| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 53 | Canolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch | 3PD |  |
| 54 | Meddygfa Strawberry Place, Treforys | 3PD |  |
| 55 | Ysbyty Dinbych-y-pysgod | Cyfalaf |  |
| 56 | Canolfan Iechyd Beacon, Abertawe | 3PD |  |

A Atodiad 1

| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 57 | Canolfan Iechyd y Cei, Cei Connah | 3PD |  |
| 58 | Canolfan Gofal Sylfaenol Treharris | 3PD |  |
| 59 | Canolfan Feddygol Trellech | 3PD |  |
| 60 | Tŷ Calon Lân, Aberpennar | 3PD |  |





| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 61 | Tŷ Doctor, Nefyn | 3PD |  |
| 62 | Tŷ Garngoch, Gorseinon | Cyfalaf |  |
| 63 | Canolfan Iechyd Tywyn | Cyfalaf |  |
| 64 | Canolfan Iechyd y Brifysgol, Abertawe | 3PD |  |

A

Atodiad 1

| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 65 | Canolfan Gofal Sylfaenol Cwm Nedd, Glyn-nedd | 3PD |  |
| 66 | Canolfan Feddygol West End, Bae Colwyn | 3PD |  |
| 67 | Canolfan Feddygol West Quay, y Barri | 3PD |  |
| 68 | Canolfan Gofal Sylfaenol Gorllewin y Rhyl | 3PD |  |





| Rhif | Prosiect | Caffael | Ffotograff |
|---|---|---|---|
| 69 | Canolfan Feddygol Ynyshir | 3PD |  |
| 70 | Canolfan Feddygol yr Hen Orsaf, Bethesda. | 3PD |  |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
Shared Services Partnership
Specialist Estates Services

**Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru –**
**Gwasanaethau Ystadau Arbenigol**
3ydd Llawr
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Caerdydd
CF14 3UB

Rhif ffôn: 02920 904084
E-bost: ses.info@wales.nhs.uk